

DECHRAU TEG I BOB PLENTYN

Pam y mae'n rhaid i ni weithredu nawr i drechu tlodi plant yn y DU

Briff Polisi Cymru

Cefndir

Ers cael ein sefydlu yn sgil y Rhyfel Byd Cyntaf, mae Achub y Plant wedi ymdrechu i fynd i'r afael â thlodi plant yn y DU, gan gydnabod bod tlodi, fel ym mhob man arall yn y byd, yn effeithio ar blant, gan niweidio eu plentyndod yma, nawr a'u cyfleoedd yn y dyfodol.

Mae ein hadroddiad newydd 'Dechrau Teg i Bob Plentyn' yn archwilio effaith tlodi ar fywydau plant a theuluoedd yn y DU yn 2014 a'r ysgogwyr sylfaenol sy'n ei greu. Mae hefyd yn ystyried y dyfodol; gyda modelu newydd yn dangos y gallai'r perygl y bydd mwy o blant yn mynd i mewn i dlodi fod yn fwy nag yr ydym yn ei ofni ar hyn o bryd.

Mae tlodi plant yn parhau yn y DU, mae 27% o blant yn y DU yn byw mewn teuluoedd y mae eu hincwm 60% islaw cyfartaledd y DU ac yng Nghymru mae'r gyfradd yn uwch hyd yn oed, sef 33%.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadw ei hymrwymiad i ddileu tlodi plant erbyn 2020. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd rhaglenni Llywodraeth Cymru sy'n mynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru fel Dechrau'n Deg, Cymunedau yn Gyntaf, a Theuluoedd yn

Gyntaf a'r mentrau mewn addysg â'r nod o leddfu effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol.

Fe wnaethom groesawu cyflwyno cerrig milltir mesuradwy wrth adnewyddu Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi yn 2013. Fodd bynnag, rydym wedi lleisio pryderon nad yw'n llwyddo i fynd i'r afael â'r broblem gynyddol o dlodi mewn gwaith na chydabod nad yw llawer o'r plant sy'n byw mewn tlodi yng Nghymru yn byw mewn ardal lle gallant elwa'n llawn ar holl fentrau Llywodraeth Cymru i fynd i'r afael â thlodi plant yng Nghymru.

Mae ein hadroddiad yn dangos bod profiad byw y plant a'r teuluoedd yr ydym yn gweithio gyda nhw, yn dweud wrthym bod ffordd bell i fynd eto. Oni bai ein bod yn mynd i'r afael â'r bygythiad o dlodi plant cynyddol nawr, rydym yn rhoi cenedlaethau cyfan o blant o deuluoedd tlawd mewn perygl o gael eu gadael ar ôl.

Beth mae'r adroddiad yn dweud wrthym?

- Na fydd y ffaith fod economi'r DU yn dechrau adfer (ynddo'i hun ac ar ei ben ei hun), yn codi plant allan o dlodi.
- Y gallai'r cynnydd mewn tlodi plant erbyn 2020 fod llawer yn uwch na'r traean a



Save the Children
Achub y Plant

ragfynegwyd gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid.


- Bod teuluoedd incwm isel yn parhau i ddioddef anghyfiawnder ‘premiwm tlodi’ cynyddol

Cyflwyniad

Mae ‘Dechrau Teg i Bob Plentyn’ yn ystyried yr effaith y bydd adferiad economaidd yn ei gael ar incwm, cymorth nawdd cymdeithasol a chostau byw ar gyfer teuluoedd incwm isel. Mae’n rhoi Map o Dlodi Plant yn y DU (Ffigur 1) sydd yn olrhain y tri achos tlodi plant a’r ffordd y gallant arwain at ganlyniadau sylweddol i ansawdd blynyddoedd cynnar plentyn sydd, yn ei dro, yn effeithio ar eu bywyd fel oedolion. Mae’r briff hwn hefyd yn rhoi canllaw i benodau’r prif adroddiad.

“Mae pethau’n mynd yn waeth i ni fel teulu, nid ydym byth eisiau i’n merch fod heb bethau.”

Person ifanc, Caerdydd



Ffynhonnell: Achub y Plant yn seiliedig ar ystod o ffynonellau ar gael yn gyhoeddus, yn cynnwys Llywodraeth EM, Resolution Foundation, Sefydliad Joseph Rowntree, Grŵp Gweithredu ar Dlodi Plant, Sefydliad Cyflog Byw (2014), Waldfoegel a Washbrook (2010). Mae’r diagram yn dangos tri phrif achos tlodi plant sydd yn ffocws i Bennod 1. Mae’r diagram hefyd yn dangos y prif ganlyniadau sy’n cael eu nodi’n aml mewn llenyddiaeth ar dlodi plant yn y DU, yn arbennig wrth gyfeirio at eu heffaith ar gyflwyniad yn yr ysgol, sydd yn ffocws i Bennod 2. Nid bwriad y diagram yw bod yn gynhwysfawr.

1. Effaith tlodi ar fywydau plant

Mae'r bennod hon yn disgrifio'r profiad byw o fod yn blentyn sydd yn byw mewn tlodi. Mae'n trafod canlyniadau tlodi ar blentyn ac yn archwilio'r effaith ar iechyd corfforol, lles emosiynol a datblygiad gwybyddol, sydd i gyd yn cyfrannu at blentynod boddhaol a llwyddiant yn yr ysgol a thu hwnt.

Mae'r canfyddiadau yn dangos bod y bwch rhwng canlyniadau plant sy'n byw mewn tlodi a'u cyfoedion mwy cefnog:

- **Yn dal yn eang o ran safon byw** yn arbennig o ran ansawdd yr amgylchedd gartref, cael lle diogel i chwarae yn yr awyr agored ac aberth rhieni
- **Yn dal yn eang o ran ansawdd bywyd**, er enghraifft yr amser sy'n cael ei dreulio gyda rhieni, lefel y straen a lefelau gordewdra
- **Wedi lleihau o ran cyrhaeddiad addysgol**, er bod lle sylweddol ar gyfer cynnydd pellachⁱ. Yn yr argymhellion, mae Achub y Plant yn dadlau o blaid ymgyrch cenedlaethol parhaus i gau'r bwch.

Mae'r bennod hon yn pwysleisio bod y gwahaniaethau hyn rhwng plant sydd yn dlawd a'r rheiny nad ydynt yn dlawd, yn fwy pwysig i blant iau, oherwydd pwysigrwydd y blynyddoedd cynnar ar ddatblygiad oes. Yn ogystal, mae bylchau sydd eisoes yn amlwg rhwng plant yn bump oed yn fwy anodd eu cau wrth iddynt fynd yn hŷn.

Mae teuluoedd incwm isel yn llai tebygol o allu fforddio nwyddau materol a gwasanaethau sylfaenol sydd yn sicrhau dechrau boddhaol mewn bywyd i'w plant. Mae'r siawns o fynd heb rywbeth yn uwch ar gyfer plant iau, sydd yn fwy tebygol o fod mewn tlodi am fod eu rhieni yn rhoi'r gorau i weithio dros dro i ofalu amdanyntⁱⁱ.

Mae'r bennod hon yn categoreiddio'r pethau sy'n ddiffygiol ym mywydau plant o ran:

1. Iechyd corfforol (Bwyd a maeth, tai)
2. Lles emosiynol (Aberth rhieni, straen yn ystod plentyndod)
3. Datblygiad gwybyddol (rhyngweithio gyda rhieni, prinder llyfrau a theganau addysgol)

Mae'r tri yn effeithio ar gyrhaeddiad addysgol fel y gwelir yn Ffigur 1. Er enghraifft, pa mor barod yw plentyn i ddsygu pan fydd yn cyrraedd yr ysgol. Mae plant sy'n tyfu i fyny mewn teuluoedd incwm isel, â diffyg unrhyw un neu'r cyfan o'r ffactorau hyn, yn llai tebygol o fod yn barod ar gyfer yr ysgol ac yn fwy tebygol o fod ar ei hôl hi.

Ceir hefyd archwiliad o dlodi uchelgais mewn perthynas â disgygliadau rhieni.

2. Prif Ysgogwyr Tlodi Plant

Mae'r bennod hon yn edrych yn ôl dros ddegawd, er mwyn sefydlu tri ysgogwr hirdymor sydd yn rhoi plant mewn tlodi: esblygiad cyflogau, gwariant y llywodraeth ar nawdd cymdeithasol a gwasanaethau a chostau byw ar gyfer teuluoedd incwm isel. Daw tri phrif bwynt i'r amlwg o'r dadansoddiad:

1. **Nid yw gwaith bellach yn cynnig ateb cyflawn i dlodi**
Er gwaethaf cynnydd mewn cyflogaeth, nid yw cyflogau gwirioneddol wedi newid llawer. Mae dros hanner y plant tlawd yng Nghymru yn byw ar aelwydydd sy'n gweithio.
2. **Nid yw'r rhwyd nawdd cymdeithasol bellach yn ddigon o rwyd ddiogelwch ar gyfer teuluoedd tlawd**
Mae'r toriadau gwariant diweddar i nawdd cymdeithasol a gwasanaethau wedi bod yn ergyd i'r bobl fwyaf tlawd, gan roi cyfrif am 8-9 y cant o incwm dengradd dlotaf y boblogaeth.

3. **Mae'n costio mwy i fod yn dlawd** Oherwydd y ffordd y mae teuluoedd incwm isel yn prynu eu nwyddau a'u gwasanaethau o ddydd i ddydd ac oherwydd eu mynediad cyfyngedig i opsiynau ariannu rhad, maent yn aml yn talu mwy. Er enghraifft, mae teuluoedd incwm isel yn fwy tebygol o ddefnyddio mesurydd talu ymlaen llaw ar gyfer ynni. O ganlyniad, maent yn talu cyfradd uwch fesul uned na chwsmeriaid sy'n talu trwy ddebyd uniongyrchol. Gallai bil tanwydd deul blynyddol arferol fod tua 21% (£241) yn ddrutach.

Mae Achub y Plant yn amcangyfrif ar ddiwedd 2013, bod y premiwm tlodi tua £1639 y flwyddyn (**Tabl I**), sydd, hyd yn oed wrth ystyried chwyddiant cyffredinol, yn uwch nag y rhagamcanwyd erioed. (Yn 2010, amcangyfrifwyd mai £1289 oedd y premiwm tlodi, yn 2007, roedd yn £1002).ⁱ I deulu sy'n byw yn agos i'r llinell dlodi, gallai hyn roi cyfrif am ryw 8 y cant o'u hincwm.ⁱⁱⁱ

'Rydym yn cael anhawster yn cadw'r biliau o dan reolaeth a chael digon i dalu am fwyd, mae'n anodd'

'Roeddwn eisiau cael bil chwarterol i dalu am y gwres, a phan ffoniais nhw a gofyn, dywedwyd nad oedd yn broblem, ond mae'n £150 i newid y mesurydd ac mae'n rhaid i chi dalu.'

Mae'n fwy na thalu trwy ddebyd uniongyrchol. Mae hyn yn anodd i ni.'

Teulu o Ferthyr Tudful

Tabl I: Darlun o'r premiwm tlodi, 2013-14

Eitem	Costau arferol (£)	Costau i deuluoedd incwm isel (£)	Cost ychwanegol (£)
Benthyciad o £500	500.00	929.51	429.51
Eitem sylfaenol i'r cartref: ffwrn	249.00	858.00	609.00
Cost i gyfnewid tair siec o £200 am arian	0.00	39.00	39.00
Bil nwy a thrydan blynyddol wedi eu cyfuno	1,136.00	1,377.00	241.00
Yswiriant cynnwys y cartref	64.33	67.10	2.77
Yswiriant car	454.77	772.74	317.97
<i>Cyfanswm</i>	<i>2,404.10</i>	<i>4,043.35</i>	<i>1,639.25</i>

Mae ein canfyddiadau hefyd yn dangos bod diffyg cynilion neu fynediad i gardiau credyd neu fenthyciadau llog isel, yn golygu na all teuluoedd fforddio talu am wariant annisgwyl yn gyflym, fel adnewyddu ffwrn sydd wedi torri; dywedodd 38% o rieni o Gymru yn ein harolwg eu bod wedi gorfod troi at ffynonellau anffurfiol fel ffrindiau a theulu er mwyn talu am eitemau hanfodol^{iv}

O ganlyniad i'r caledi ariannol hwn, mae'r galw am wasanaethau dros dro wedi cynyddu. Mae hyn yn cynnwys y galw am raglen Achub y Plant, *Bwyta, Cysgu, Dysgu, Chwarae!*, sy'n darparu grantiau materol i helpu rhieni incwm isel â phlant ifanc iawn i brynu eitemau hanfodol ar gyfer eu cartrefi sy'n cefnogi datblygiad cynnar plant.

Bwyta, Cysgu, Dysgu, Chwarae! Er 2011, mae Achub y Plant wedi cynnal rhaglen grant ymyrraeth gynnar o'r enw Bwyta, Cysgu, Dysgu, Chwarae! (ESLP!) sy'n darparu nwyddau materol ar gyfer rhieni incwm isel â phlant ifanc iawn i wella amgylchedd y cartref a datblygiad cynnar plentyn.

Mae'n gweithredu mewn ardaloedd o'r DU â'r amddifadedd uchaf. Ers ei ddechrau, mae dros 2,000 o grantiau wedi cael eu dyfarnu yng Nghymru.

“Pan gyrhaeddodd y ffwrn roedd yn wych, aethom yn ôl i gael prydau go iawn wedi eu coginio a bwyd iach unwaith eto. Gofynnodd Emily i mi am bryd go iawn wedi ei goginio yn syth!”

Derbynydd ESLP, Cymru

Mae teuluoedd incwm isel heddiw yn agored i ergydion yn y dyfodol oherwydd cyfuniad o dwf gwan o ran tâl, toriadau i nawdd cymdeithasol a gwasanaethau a chostau byw cynyddol. Mae teuluoedd incwm cymedrol wedi dod yn fwy agored i niwed yn ogystal â theuluoedd incwm isel.

Mae'r rhain yn dueddiadau sydd yn llawer dyfnach nag un cylch economaidd ac unrhyw set o ymatebion gwleidyddol a pholisi. Bydd busnes fel arfer yn golygu bod niferoedd sylweddol iawn o blant yn y DU yn cael eu gadael ar ôl wrth i'r economi ddechrau symud unwaith eto.

3. Beth nesaf? Y bygythiad o dlodi plant cynyddol

Mae'r bennod hon yn edrych ar y cynnydd disgwylidig mewn tlodi plant ar draws y DU fel y rhagwelir gan y Sefydliad Astudiaethau Cyllid. Yna, gan ddefnyddio ymchwil newydd a wnaed ar gyfer Achub y Plant gan Landman Economics, mae'n amlygu'r peryglon i

deuluoedd incwm isel a allai arwain at gyfraddau tlodi plant sydd yn uwch na'r disgwyl. Mae'n dangos y gallai teuluoedd incwm isel fod yn waeth eu byd erbyn 2020, er gwaethaf cynnydd mewn twf economaidd.

Gallai cost nwyddau sylfaenol, fel bwyd, ynni a gofal plant, gynyddu'n gyflymach na phrisiau cyfartalog, gan arwain at ostyngiad mewn safonau byw sydd eisoes o dan straen.

Os nad yw adrannau'r llywodraeth yn gallu dod o hyd i'r cynilion sy'n ofynnol i fodloni targedau cyllid, gallai'r baich syrthio ar wariant nawdd cymdeithasol a gallai teuluoedd incwm isel wynebu mwy o doriadau.

Canfu arolwg o rieni a gynhaliwyd ar ran Achub y Plant gan OnePoll nad yw teuluoedd incwm isel a chymedrol yn obeithiol am y buddion i deuluoedd a ddaw yn sgil adferiad economaidd.

Ategodd y plant a gymrodd ran mewn gweithdai gydag Achub y Plant eu pryderon am allu fforddio nwyddau sylfaenol fel bwyd, tai, dillad ac ynni.

“Mae dwy ystafell wely yn fy nhŷ i. Rwy'n rhannu gyda fy mrawd a'm chwaer”

Person ifanc, De Cymru

Gallai twf cyflogau gwannach nag y rhagwelwyd, mwy o doriadau i wariant ar nawdd cymdeithasol a chynnydd uwch na'r disgwyl yng nghostau byw arwain at fwy o blant yn byw mewn tlodi erbyn 2020 nag y rhagwelir ar hyn o bryd.

Erbyn 2020, mae ein modelu yn awgrymu y gallai cyfradd tlodi plant fod gyda'r uchaf a gofnodwyd erioed yn y DU ac ar ei uchaf ers cenhedlaeth. Byddai hyn yn gyferth â dirywiad materol yn ansawdd plentyndod a chyfleoedd bywyd plant tlawd.

4. Opsiynau Polisi: mapio'r ymateb

Mae'r bennod hon yn nodi'r meysydd y mae angen i lywodraethau eu harchwilio ar gyfer strategaeth i fynd i'r afael ag ysgogwyr tlodi plant.

Er mwyn mynd i'r afael ag ysgogwyr tlodi, mae angen dull hirdymor strategol a chydlynus. Yng Nghymru, dim ond rhai o'r ysgogiadau sydd eu hangen sydd gennym.

Gwneud i Waith Dalu ac Ymyriadau'r Farchnad Lafur

Y Cyflog Byw

Mae'r Cyflog Byw yn rhan fawr o'r frwydr yn erbyn tlodi plant. Pe byddai cyflogwyr yn mabwysiadu'r cyflog byw yn helaeth, byddai hyn yn lleddfu pryderon am fynychder parhaus tâl isel. Yn 2012, deisyfodd ein hymgyrchwyr ifanc ar Lywodraeth Cymru i geisio cyflwyno Cyflog Byw ar gyfer pob gweithiwr yng Nghymru.

Daeth Llywodraeth Cymru yn gyflogwr achrededig y Cyflog Byw. Fodd bynnag, mae angen gwneud mwy i hyrwyddo ymgymeriad y cyflog byw ymysg pob cyflogwr yng Nghymru sy'n dymuno cael ei ystyried yn gyfeillgar i deuluoedd.

Rydym o'r farn y dylai gwneuthurwyr polisi:

- hyrwyddo ymgymeriad y cyflog byw ymysg cyflogwyr sy'n dymuno cael eu hystyried yn gyfeillgar i deuluoedd.

Isafswm cyflog

Dros sawl blwyddyn, mae methu uwchraddio'r isafswm cyflog yn unol â chwyddiant wedi ei wanhau fel offeryn ar gyfer trechu tlodi. Dylid croesawu'r ffaith y bydd yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol yn cynyddu 3%

(yn uwch na chwyddiant) yn 2014. Mae angen mwy o gynnydd uwchlaw chwyddiant i'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol er mwyn gwneud yn iawn am y golled yn ei werth.

Rydym o'r farn y dylai gwneuthurwyr polisi:

- Gynyddu'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol ar gyfradd sydd yn uwch na chwyddiant bob blwyddyn er mwyn iddo gyrraedd lefel sy'n adlewyrchu'r enillion sydd eu hangen i gael safon byw sylfaenol cyn gynted â phosibl.

Credyd cynhwysol

Dros y blynyddoedd i ddod, bydd Credyd Cynhwysol yn disodli ystod o fudd-daliadau a chredydau treth oedran gweithio. Dylid cymryd camau sydd yn arwain at y Credyd Cynhwysol yn cael effaith gref ar gyfraddau cyflogaeth rhieni, yn arbennig ymysg y rheiny sydd yn ennill ail gyflog, ac felly lleihau tlodi plant. Dylid ystyried sancsiynau yn ofalus bob amser ond yn arbennig mewn teuluoedd â phlant ac yn arbennig pan fydd y plant o dan 5 oed.

Rydym o'r farn y dylai gwneuthurwyr polisi:

- leihau'r gyfradd feinhau o dan y credyd cynhwysol o 65% i 55%
- cyflwyno diystyrwch ennill ail gyflog

Ymyriadau y farchnad lafur

Rydym o'r farn y dylai gwneuthurwyr polisi:

- ddatblygu strategaeth ar gyfer gwella'r sefyllfa y mae rhieni yn ei hwynebu yn y farchnad lafur gyda ffocws penodol ar rieni unigol a'r rheiny sydd yn ennill ail gyflog ymysg parau sy'n byw mewn tlodi.

Incwm Teulu

Budd-daliadau teulu

Mae'r holl brif bleidiau gwleidyddol wedi cydnabod pwysigrwydd datblygiad plant yn ystod y blynyddoedd cynnar. Sicrhau incwm boddhaol i bob teulu â phlant ifanc yw'r lleiaf y dylem ei ddisgwyl gan y system nawdd cymdeithasol.

Rydym o'r farn y dylai gwneuthurwyr polisi:

- Fuddsoddi mewn teuluoedd incwm isel â phlant ifanc trwy gyflwyno taliadau nawdd cymdeithasol newydd sy'n targedu'r grŵp hwnnw yn benodol.

Diogelwch rhag toriadau pellach

Rydym yn galw ar yr holl bleidiau gwleidyddol i:

- nodi'n glir sut y maent yn bwriadu gweithredu'r cap ar les mewn ffordd nad yw'n niweidio plant sy'n byw mewn tldi

Lleddfu'r pwysau ar Gyllidebau Teulu a Mynd i'r Afael â'r Premiwm Tldi

Tai

Rydym o'r farn y dylai gwneuthurwyr polisi:

- hybu cyflenwad tai cymdeithasol er mwyn lleihau'r bil budd-dâl tai mewn ffordd gynaliadwy, tra'n darparu tai fforddiadwy, sefydlog o ansawdd uchel i deuluoedd

Tldi bwyd

Rydym wedi gweld bod cost bwyd yn her arbennig a bod llawer o rieni yn methu prydau ac yn poeni am ddarparu deiet da a maethlon

i'w plant. Yn ôl y ffigurau diweddaraf gan Ymddiriedolaeth Trussell, rhwydwaith banc bwyd mwyaf y DU, mae mwy o bobl yn cael eu hatgyfeirio at fanciau bwyd Ymddiriedolaeth Trussell nag erioed o'r blaen.

Yng Nghymru, derbyniodd dros 79,049 o bobl dridiau o fwyd mewn argyfwng gan fanciau bwyd Ymddiriedolaeth Trussell yn 2013-14, o'i gymharu â 35,919 yn 2012-13.^v

“Gallech fod eisiau cynilo ar gyfer rhywbeth ond os byddwch yn cynilo ni fydd gennyh arian am fwyd”

Dyfyniad gan berson ifanc, Caerdydd

Rydym o'r farn bod angen i bleidiau gwleidyddol:

- sefydlu strateach glir ar gyfer mynd i'r afael â thldi bwyd sy'n ymdrin â'r achosion, nid y canlyniadau yn unig

Costau ynni

Fel costau bwyd, mae costau ynni yn rhoi cyfrif am gyfran uwch o wariant aelwydydd incwm isel ac mae llawer o deuluoedd incwm isel yn canfod y gallant wario mwy am eu bod yn talu eu biliau ynni trwy fesuryddion talu ymlaen llaw. Gall canlyniadau byw mewn cartref oer fod yn ddifrifol i blant, o ran eu hiechyd corfforol a'u datblygiad.

Rydym o'r farn y dylai gwneuthurwyr polisi a chwmnïau ynni:

- sicrhau y gall bob cwsmer gael mynediad i'r tariff a'r cynigion mwyaf cost effeithiol

Rydym o'r farn y dylai'r holl wneuthurwyr polisi:

- roi'r gostyngiad cartref cynnes i bob teulu â phlant

Mynediad i arian parod/credyd

Gall undebau credyd gynnig dewis amgen, fforddiadwy i fenthyciadau llog uchel, ond mae eu defnydd ar draws y DU wedi bod yn gyfyngedig. Fodd bynnag, mae arwyddion addawol bod y sector undebau credyd yn tyfu. Mae angen i'r sector barhau i ehangu yn gynaliadwy. Rydym yn croesawu targed Llywodraeth Cymru o gael 143,000 o bobl yn aelodau o undebau credyd yng Nghymru erbyn 2020, sydd yn gyfwerth â chwech y cant o'r boblogaeth.

Rydym o'r farn y dylai gwneuthurwyr polisi:

- Hyrwyddo a chefnogi cynnydd yn nhwf y defnydd o undebau credyd.
- Archwilio mentrau i wella llythrennedd ariannol plant trwy annog partneriaethau rhwng ysgolion ac undebau credyd lleol.

Cynlluniau cymorth lles lleol

O Ebrill 2013, cafodd elfennau Grantiau Gofal Cymunedol a Benthyciadau Argyfwng eu datganoli i awdurdodau lleol yng Nghymru, a llywodraethau datganoledig Cymru a'r Alban. Roedd Benthyciadau Argyfwng ar gael i bobl ar incwm isel oedd yn wynebu argyfwng ariannol tymor byr. Fel y mae'n hysbys i Achub y Plant yn sgil ein rhaglen grantiau argyfwng ein hunain, gall y cymorth iawn ar yr adeg iawn wneud gwahaniaeth sylweddol i deuluoedd sy'n byw ar y dibyn.

Bu pryder sylweddol am y diwygiadau hyn oherwydd nid yw'n ofynnol i awdurdodau lleol gynnal cynlluniau yn eu lle, ac am fod cyllid gan lywodraeth leol ar gyfer cynlluniau yn eu lle wedi cael ei dorri. Er mwyn sicrhau bodolaeth cymorth digonol yng Nghymru, rydym yn galw am:

- barhad cynllun grant argyfwng yng Nghymru.

Dewis i wleidyddion

Ni fyddwn yn cyrraedd targedau tlodi plant 2020 os byddwn yn parhau ar y llwybr presennol neu unrhyw gynllun amgen sy'n hawdd ei amgyffred - ffaith sydd wedi cael ei chydabod yn helaeth gan ddadansoddwyr a sylwebyddion. Er gwaethaf hyn, mae'r pleidiau gwleidyddol yn parhau i ddatgan eu hymrwymiad i'r targedau tlodi plant. Nid yw'r sefyllfa hon yn gredadwy nac yn gynaliadwy. Mae gwactod wedi cael ei greu. Nid yw gwleidyddion yn cael eu gwneud yn atebol am blant mewn tlodi.

Er y cafwyd rhai mesurau cadarnhaol â'r nod o gefnogi teuluoedd sy'n byw mewn tlodi, mae 'Dechrau Teg' yn dangos na fydd y rhain yn ddigon.

Mae gan wleidyddion ddewis: Naill ai ymrwymo i dargedau 2020 a chyflwyno strategaeth gredadwy ar unwaith neu fod yn agored gyda'r cyhoedd a chreu'r nodau interim mwyaf uchelgeisiol, cyraeddadwy gyda chynllun cyfatebol.

Nid yw'r sefyllfa bresennol yn dderbyniol. Mae'r sefyllfa a'r perygl yn gwaethygu ar gyfer y plant mewn tlodi yn y DU, ond mae'r ymateb gwleidyddol yn dal yn ddisymud. Mae adfer hyn yn gyfrifoldeb i bob arweinydd gwleidyddol.

5. Galwad Achub y Plant am Ddechrau Teg i Bob Plentyn

Os na fyddwn yn dileu tlodi plant erbyn 2020, ein blaenoriaeth yw i bob plentyn gael dechrau teg.

I gyflawni hyn rydym yn galw am y canlynol:

1. Pob teulu i gael mynediad i ofal plant fforddiadwy o ansawdd uchel

Mae gofal plant yn rhwystr sylweddol i gyflogaeth ar gyfer rhieni sydd eisiau gweithio. Er gwaethaf cyflwyno rhai mesurau cadarnhaol i gefnogi teuluoedd, mae costau gofal plant yn debygol o barhau'n fater sylweddol.

Gwyddom fod costau gofal plant yng Nghymru yn arbennig o uchel. Ar hyn o bryd, mae rhieni yng Nghymru yn talu costau sydd gyda'r uchaf am ofal plant yn y byd datblygedig. Mae costau gofal plant yn parhau i godi'n sylweddol ac yn y flwyddyn ddiwethaf, gwelodd Cymru'r cynnydd mwyaf ym mhob gwasanaeth gofal plant ac eithrio gofalwyr plant ymysg holl wledydd eraill y DU.

Mae amrywiaeth rhanbarthol sylweddol o ran costau gofal plant yng Nghymru. Yn ôl yr Ymddiriedolaeth Gofal Dydd ac Arolwg y Sefydliad Teuluoedd a Rhianta 2013, mae gwahaniaeth o 206% rhwng yr awdurdodau lleol mwyaf a lleiaf drud o ran cost clybiau ar ôl ysgol yng Nghymru.

'Nid wyf yn bwriadu mynd yn ôl i'r gwaith ar hyn o bryd am fod fy mhiant yn dal yn ifanc, ond yn y dyfodol rwy'n gobeithio gwneud. Fodd bynnag, os yw costau gofal plant yn dal i godi ac fel y mae'r costau nawr, ni fyddai unrhyw fudd ariannol o fynd yn ôl i'r gwaith'^{vi}

Rhiant yng Nghaerffili

2. Gwarant isafswm incwm ar gyfer teuluoedd plant o dan bump oed

Rydym yn galw am warant isafswm incwm, er mwyn sicrhau bod gan bob teulu â phlant o dan bump oed ddigon o adnoddau i gynorthwyo datblygiad iach a dechrau da i blentynod.

3. Cenhadaeth genedlaethol i bob plentyn fod yn darllen yn dda erbyn 11 oed

Gallai'r alwad hon chwarae rôl sylweddol yn gwella profiadau bywyd plant mewn teuluoedd mwy tlawd a sicrhau nad yw tlodi'n parhau ar draws cenedlaethau.

Rydym o'r farn bod gan bob plentyn hawl i ddechrau teg. Y perygl yw bod miloedd o blant yng Nghymru yn wynebu dyfodol mwy tlawd. Mae adfer hyn yn gyfrifoldeb i ni i gyd.

Cynhyrchwyd Briff Cymru gan:

Mary Powell-Chandler, Pennaeth Achub y Plant yng Nghymru

Catherine Rees, Swyddog Polisi, Eiriolaeth ac Ymgyrchoedd

Sara Drysdale, Swyddog Polisi, Eiriolaeth ac Ymgyrchoedd

Lois Eckley, Rheolwr y Cyfryngau a Chyfathrebu

Mai 2014

Mae Achub y Plant yn gweithio mewn mwy na 120 o wledydd. Rydym yn achub bywydau plant. Rydym yn brwydro dros eu hawliau. Rydym yn eu helpu i gyflawni eu potensial.

Achub y Plant, Tŷ Phoenix, 8 Heol y Gadeirlan, Caerdydd CF11 9DD

02920 396838
savethechildren.org.uk

Elusen gofrestredig Cymru a Lloegr (213890) Yr Alban (SC039570)

ⁱ Ystadegau cyflawniad academiaidd a hawl i brydau ysgol am ddim Llywodraeth Cymru 2014

ⁱⁱ Dangosodd yr Arolwg Adnoddau Teuluol diweddaraf fod 28 y cant o blant yn y cwintel incwm isaf yn 0-4 oed o'u cymharu â 23 oedd yn 11-15 oed

ⁱⁱⁱ Price of being poor, Save the Children 2014

^{iv} Arolwg rhieni Onepoll ar gyfer Achub y Plant 2014

^v Ymddiriedolaeth Trussell, Ffigurau Ariannol Diwedd Blwyddyn Cymru 2013-14

^{vi} Briff The Childcare Trap Wales, Achub y Plant 2011